



9.30am, Dydd Llun 6 Gorffennaf 2020
Cyfarfod Microsoft Teams

COFNODION

Presennol	
Enw	Sefydliad
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Cyng Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cyng Jan Curtice	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Uwcharolygydd Ifan Charles	Heddlu Dyfed-Powys
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
Menna Davies	Adran Gwaith a Phensiynau
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Mark Galbraith	Cyngor Cymuned Gwledig Llanelli

Yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gareth Jones	Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Eitem 1 a 2)
John Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin (Eitem 1 a 2)
Daron Herbert	Cyfoeth Naturiol Cymru

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, Cadeirydd y BGC bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynwyd y gwesteion.

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

2. Cysylltedd Digidol

Rhoddodd Gareth Jones, Arweinydd Seilwaith Digidol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, gyflwyniad a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae Cysylltedd Digidol yn cynnwys band eang ffeibr llawn a/neu rwydwaith symudol (4G neu 5G yn y dyfodol) ac unrhyw rwydweithiau diwifr neu symudol eraill.
- Lluniwyd cynllun gweithredu yn dilyn ymchwil drylwyr, gan gwmpasu'r hyn sydd gennym/nad oes gennym, yr heriau, y cyfleoedd a'r ffordd orau o gefnogi'r sir o ystyried ei bwysigrwydd i breswylwyr, cymunedau, busnesau ac ati.
- Y gwasanaeth presennol ar gyfer band eang:
 - Cymru 94.8%
 - Sir Gaerfyrddin 87.1% - mae hyn wedi cynyddu 1.1% (sy'n cyfateb i 1,000 o safleoedd) ers creu'r sleidiau.
 - Ni all 12,838 o safleoedd yn Sir Gaerfyrddin gael mynediad i ddiffiniad yr UE o fand eang cyflym iawn (uwch na 30 meg wrth lawrlwytho).
- Y gwasanaeth presennol ar gyfer ffonau symudol:
 - Mae gan 90% o Gymru fynediad i 4G da gan o leiaf un gweithredwr.
 - Mae gan 57% wasanaeth gan y pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol.
- Mae problemau o ran gwasanaeth oherwydd topoleg a daearyddiaeth.
- O'r 87.1% sydd â mynediad i fand eang cyflym iawn, dim ond 38% sy'n cael defnydd ohono yng Nghymru (trefol 41%, gwledig 26%). Byddai cynyddu'r defnydd hefyd yn cynyddu'r buddsoddiad a dichonoldeb masnachol.
- Gweithgaredd presennol ar draws y Rhanbarth i wella'r sefyllfa:
 - Cynhaliwyd Seminar Cysylltedd Digidol ar gyfer Aelodau Etholedig ym mis Rhagfyr 2019. Gwahoddwyd Openreach ac eraill, a chodwyd ymwybyddiaeth o'r problemau a'r potensial.
 - Bydd buddsoddiad Cyflymu Cymru 2 o fudd i 2,000 o safleoedd yn Sir Gaerfyrddin (preswyl a busnesau). Mae cyhoeddiad ar y gweill lle credir y bydd o fudd i 3,000 o safleoedd ychwanegol.
 - Cyhoeddodd Openreach yn gynharach eleni fuddsoddiad masnachol sylweddol mewn bil ffeibr llawn ar gyfer ardaloedd gwledig. Sir Gaerfyrddin yw'r unig awdurdod yng ngorllewin Cymru ar y rhestr. Bydd 19 cymuned yn elwa ar y buddsoddiad hwn.
 - Ymgysylltu â Rhanddeiliaid - meithrin perthynas â'r holl randdeiliaid e.e. Ofcom, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU yn benodol yr Adran dros Dechnoleg Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.
 - Mae'r Adran Fewnol, Polisiâu a Strategaethau yn ysgogiad pwerus gyda Grŵp Llywio Seilwaith Digidol wedi'i sefydlu yn Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael ag amrywiol faterion.
 - Mae gan Brosiect Seilwaith Digidol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe fuddsoddiad o hyd at £55m.
 - Mae Tasglu Band Eang Gwledig Llywodraeth Cymru yn cwrdd yn fisol ac yn cyfrannu at raglen waith ac yn lloio Llywodraeth Cymru.

- Mae'r Swyddog Cysylltedd Digidol wedi'i gyflogi gan CSC ac mae'n cynorthwyo preswylwyr, cymunedau a busnesau i gael mynediad i amrywiol ffrydiau cyllido ar gyfer cysylltedd.
- Mae Safleoedd Hwb y Sector Cyhoeddus yn cael eu huwchraddio i ffeibr llawn sydd yn ei dro yn galluogi eiddo lleol i gael mynediad i well cysylltedd.
- Mae ymrwymiad i osod band eang cyflym iawn ym Mharc Busnes Cross Hands.
- Mae brand marchnata yn cael ei greu i gynorthwyo o ran tynnu sylw at wasanaethau i'r cyhoedd.
- Mae adnoddau cymorth ar y we i'w gweld yn amlwg ar wefan CSC.
- Nid yw'r digwyddiadau cymunedol 10 Tref wedi'u cynnal oherwydd Covid-19. Fodd bynnag, mae 3 neu 4 Prosiect Cymunedau Gwledig yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.
- Defnydd y cynllun talebau Hyrwyddo a Hwyluso, mae gwerth y daleb wedi cynyddu yn ddiweddar. Yng Nghymru mae hyd at £7,000 ar gael i bob busnes a hyd at £1,500 ar gael i bob preswilydd.
- Ffrydiau gwaith arfaethedig ar ôl Covid-19:
 - Llythrennedd, sgiliau ac ymwybyddiaeth ddigidol - gweithio gyda rhanddeiliaid a phartner i fynd i'r afael â nhw.
 - Y Gweithle Modern - mwy o bobl yn gweithio gartref.
 - Rhwydwaith Arloesi (IoT) - Rhwydwaith diwifr yw'r Rhyngrwyd Pethau sy'n hwyluso cysylltu pethau nad oeddent yn cysylltu o'r blaen e.e. gwres canolog, peiriant golchi ac ati.
 - Achos Dros y Rhyngrwyd Pethau - mae'r potensial yn enfawr ar gyfer y sector preifat, busnes a'r sector cyhoeddus.
 - Menter Ddigidol 10 Tref - creu trefi clyfar.

Diolchodd Barry Liles i Gareth J am y cyflwyniad a gofynnodd am y buddsoddiad £55m. Rhoddodd Gareth J wybod fod yr achos busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a'r gobaith yw y bydd cyllid yn cael ei hawlio erbyn y Nadolig.

Gofynnodd Huwel Manley, ers y newidiadau i'r ddeddfwriaeth, a yw'n haws erbyn hyn i gwmnïau godi mastiau newydd ar dir preifat gyda llai o iawndal i dirfeddianwyr, ac a yw hyn wedi arwain at wella'r sefyllfa o ran cysylltedd. Dywedodd Gareth J ei fod yn credu iddo gael effaith gan fod sawl mast newydd wedi cael eu codi ledled y sir dros y flwyddyn ddiwethaf. Ychwanegodd Ruth Mullen ei bod yn haws erbyn hyn i brosesu ceisiadau newydd o safbwynt y gweithredwr a'r broses gynllunio. Fodd bynnag, roedd hi'n ansicr ynghylch y gwelliannau mewn cysylltedd gan y byddai gweithredwyr yn targedu dalgylch mwy o gwsmeriaid.

Dywedodd Barry L fod y cyfyngiadau symud wedi tynnu sylw at yr angen am gysylltedd da a gofynnodd a ellid dosbarthu gwybodaeth am fynediad i'r cynllun talebau. Gofynnodd hefyd a ellid cael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect y Fargen Ddinesig a'r Rhyngrwyd Pethau. Gofynnodd Gareth J am bwynt cyswllt ar gyfer swyddog digidol o bob sefydliad.

CMAU GWEITHREDU	
Trefnu cael y wybodaeth ddiweddaraf am gysylltedd digidol y flwyddyn nesaf.	Tîm Cefnogi'r BGC
Pob un i ddarparu pwynt cyswllt yn eu sefydliadau ar gyfer eu swyddog digidol.	Pawb
Dosbarthu'r ddolen i dudalen we Band eang Sir Gaerfyrddin https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/cysylltedd-digidol/	Tîm Cefnogi'r BGC

3. Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhoddodd Daron Herbert, Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd gyflwyniad a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Datganiad Ardal yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd.
- Mae Datganiad Ardal y De-orllewin, sy'n cwmpasu'r pedair sir o Gastell-nedd Port Talbot i Sir Benfro, yn un o saith ledled Cymru, mae chwech yn cwmpasu'r holl dir ac un yn Ddatganiad Morol.
- Er bod gan yr Ardaloedd Datganiad ffiniau, mae perthynas waith agos ag ardaloedd cyfagos a'r tîm morol.
- Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Ardal ac mae hefyd yn llywio Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru sydd yn ei dro yn nodi'r blaenoriaethau, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rheoli ein hadnoddau naturiol.
- Nod yr adroddiadau hyn yw gwella gwytnwch yr ecosystem.
- Y tri maes blaenoriaeth yn y Polisi Adnoddau Naturiol yw;
 - Gweithio gyda phrosesau naturiol
 - Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd o ran adnoddau
 - Hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar leoedd
- Mae'r Datganiad Ardal yn rhoi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith mewn cyd-destun lleol ac mae'r ddeddfwriaeth yn gosod fframwaith lle mae'n rhaid i gynlluniau a strategaethau eraill ystyried y Datganiad Ardal e.e. Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Llesiant y BGC, Parciau Cenedlaethol a Chyrff Cyhoeddus yn gweithredu eu dyletswyddau Adran 6.
- Datblygwyd y Datganiad Ardal trwy gyfres o setiau data a gweithdai gydag arbenigwyr o bob rhan o CNC a Sefydliadau Rhanddeiliaid.
- Daeth pedair thema i'r amlwg o sylfaen dystiolaeth y Datganiad Ardal:
 - Lleihau Anghydraddoldeb Iechyd - mae cysylltiad clir rhwng cael mynediad i amgylcheddau naturiol o ansawdd uchel a llesiant corfforol a meddyliol.
 - Sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir
 - Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
 - Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- Mae nifer o themâu trawsbynciol yn enwedig addasu i newid yn yr hinsawdd a'i leihau:
 - Gweithio gyda'r sector cyhoeddus a busnesau - mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gydag Alan Netherwood i edrych ar wytnwch cymunedol.
 - Cynyddu dalfeydd carbon naturiol - dulliau cynaliadwy o reoli tir, creu coetir ac adfer mawn.
 - Gweithio gyda phrosesau naturiol - lleihau rhai o effeithiau newid yn yr hinsawdd e.e. rheoli llifogydd yn naturiol.
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella - mae mewn argyfwng deul ar hyn o bryd, naturiol a hinsawdd.
 - Gwella cysylltedd a chyflwr cynefinoedd a rhywogaethau - ychydig iawn o ddolydd sydd ar ôl ac mae'r rhain yn bwysig i adar a gwenyn fel pryfed peillio.
 - Cefnogi eraill i ddiogelu bioamrywiaeth
- Sut olwg sydd ar lwyddiant? Mae'r Datganiad Ardal wedi'i lunio gyda mewnbwn gan bartneriaid a blaenoriaethau a nodwyd. Mae angen sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ofalu amdano fel rhan o benderfyniadau'r dyfodol.
- Mae meysydd gwaith allweddol o ran adfer yn sgil Covid-19 e.e. cyfleoedd twristiaeth Brechfa, lle cynnau gwyrdd ledled y sir, plannu coed ac ati.

Dywedodd Julian Atkins, gan fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei chwmpasu o dan 4 Datganiad Ardal, byddai'n dda cael gwybod am y gwahaniaeth o ran y Datganiadau Ardal eraill. Mae'n heriol gan fod pob un â chanolbwynt sydd ychydig yn wahanol. Ymatebodd Huwel Manley gan ddweud bod Datganiad Ardal y De-orllewin yn cynnwys ardal drefol Llanelli a bod y problemau ansawdd aer yn gysylltiedig ag ardaloedd diwydiannol Port Talbot. Mae thema gyffredin gyda seilwaith gwyrdd a llecynnau gwyrdd, rhagnodi cymdeithasol a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Mae pob datganiad yn benodol ar gyfer y lle ac nid yn ddull cyffredinol.

Dywedodd Ruth Mullen fod lleihau carbon, carbon sero-net, annog busnesau amaethyddol a chefnogi cymunedau gwledig yn cael eu cefnogi gan CSC a'r BGC. Gofynnodd pa fath o amserlen y mae'r Datganiad Ardal yn rhan ohoni ac a fydd yn cael ei hadolygu. Mae partneriaid bellach yn ystyried adfer a thwristiaeth a sut mae mynediad i lecynnau gwyrdd yn cael ei ddatblygu. Ymatebodd Huwel Manley gan ddweud bod trafodaethau ynglŷn ag ehangu potensial ynni adnewyddadwy o amgylch y sir. O ran twristiaeth, mae gwaith adfer yn sgil Covid-19 yn flaenoriaeth ac mae holl safleoedd CNC i ymwelwyr wedi ailagor. Mae cynaeafu yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn fforest Brechfa ac mae wedi achosi rhai problemau, ond mae cyllid ar gael i wella mynediad a bydd yn cysylltu â CSC.

Dywedodd Kevin Jones fod rhyngweithiadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Ardal ynghylch defnydd tir/llosgi/dŵr ffo ac ati. Ychwanegodd Huwel M ei fod yn gweithio'n agos gyda Mydrian Harries ar y fenter Dawns Tân ac y gallai weld cyfleoedd pellach i gydweithio ar yr heriau hyn.

CAMAU GWEITHREDU

Dosbarthu cwestiynau gan Daron Herbert i'r aelodau eu hateb

Tîm Cefnogi'r BGC

4. Cofnodion a Materion yn Codi:

22 Ionawr 2020

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

14 Mai 2020

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cam Gweithredu 7 - Rhoddodd Gwyneth Ayers wybod bod Sir Benfro wedi cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru ac y bydd Sir Gaerfyrddin yn darparu ei ymateb ei hun gan nodi ei siom ynghylch cael gwared ar gyllid a chael sicrwydd y bydd yn cael ei ddychwelyd y flwyddyn nesaf.

5. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin:

Adroddiad Blynyddol Drafft 2019-20

Rhoddodd Kate Harrop drosolwg o'r adroddiad blynyddol a nododd nad oedd modd datblygu rhai prosiectau oherwydd pandemig Covid-19.

Holodd yr Athro Jean White am y cydweithio â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a sut mae prosiectau'n plethu. Ymatebodd Gwyneth Ayers gan ddweud bod perthynas yn cael ei datblygu rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ychwanegodd fod y prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd yn cael ei ddatblygu'n rhanbarthol a bod gorgyffwrdd â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect

Nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.

CAMAU GWEITHREDU

Cwblhau'r cynllun a'i ddosbarthu i gyrff statudol

Tîm Cefnogi'r BGC

7. Adolygiad Llywodraeth Cymru o Bartneriaethau Strategol

Dywedodd Gwyneth Ayers fod yr adolygiad wedi'i gynnal gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydffederasiwn GIG Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad i Gyngor Partneriaeth Cymru Gyfan ar 11 Mehefin ac mae'n cynnwys rhai argymhellion a throsolwg o'r canfyddiadau hyd yn hyn. Nodwyd bod gan bob Partneriaeth rinwedd ond mae angen cysoni partneriaethau unigol. Mae'r adroddiad wedi nodi Partneriaethau Strategol fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Fargen Ddinesig; gyda Phartneriaethau Polisi Strategol fel Diogelwch Cymunedol, Diogelu Oedolion, Diogelu Plant, y Bartneriaeth Sgiliau, y Bwrdd Cynllunio Ardal, VAWDASV ac ati.

Mae angen cryfhau'r cysylltiad a'r berthynas rhwng gwahanol haenau o bartneriaethau a gwella dealltwriaeth a chyfathrebu rhyngddynt. Roedd yr adroddiad yn cydnabod nad yw wedi ystyried y Bil Llywodraeth Leol a fydd yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf. Bydd y bil hwn yn cyflwyno cyd-bwyllgorau corfforaethol a fydd yn cyflwyno haen bosibl arall o bartneriaeth e.e. datblygu economaidd, trafnidiaeth, cynllunio, gwella addysg ac ati.

Nid oes ateb hawdd o ran lleihau nifer y cyfarfodydd partneriaeth, ond mae angen nodi meysydd lle ceir dyblygu yn benodol rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Fargen Ddinesig; a gwella cysylltiadau cyfathrebu â'r partneriaethau polisi wrth drafod materion sy'n berthnasol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae cyfres o argymhellion ar dudalen 22 ac mae angen sicrhau bod pob partneriaeth yn chwarae rhan weithredol er mwyn sicrhau cysoni.

Dywedodd Martyn Palfreman fod yr adroddiad yn amserol a bod ymdrech bendant i wella'r cydweithio presennol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried y camau nesaf ar hyn o bryd a bydd hyn yn cael ei ystyried.

CAMAU GWEITHREDU

Ystyried cysylltiadau rhwng partneriaethau polisi a strategol eraill a nodwyd. Mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau gwell cysondeb a lleihau dyblygu gwaith.

Tîm Cefnogi'r BGC

6. Trefniadau'r Dyfodol ar gyfer y Cynllun Llesiant

Rhannodd Gwyneth Ayers ddogfen yn dangos yr amcanion llesiant presennol, y prosiectau y mae pob grŵp cyflenwi wedi canolbwyntio arnynt, gan nodi unrhyw gydweithio a rhoi sylw i waith adfer yn sgil Covid-19 a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd a fyddai modd cynnal trafodaeth fanylach yn y cyfarfod nesaf o ran meysydd ffocws arfaethedig yn y dyfodol. Ychwanegodd Barry Liles fod angen ystyried yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar yr amcanion a nodwyd yn flaenorol.

Dywedodd Huwel Manley fod cyfleoedd i gysylltu'r gwaith adfer yn sgil Covid-19 â gwaith yr is-grwpiau. Er bod gwaith adfer yn sgil Covid-19 yn ffocws allweddol, nid hwn yw'r unig amcan.

Croesawodd Martyn Palfreman y cysylltiadau a nodwyd gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn enwedig yr agenda gwirfoddoli a gofal trwy gymorth technoleg. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar fin nodi'r camau nesaf a byddai'n gyfle gwych i gysoni yn hytrach na dyblygu neu fynd ar drywydd gwahanol.

Dywedodd Menna Davies fod Covid-19 wedi cefnogi nod y Grŵp Cysylltiadau Cadarn o ran sefydlu mwy o ganolfannau cymunedol, yn swyddogol ac yn answyddogol. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n gwarchod eu hunain ac ati ac mae angen dal ati a chynnal hyn yn y dyfodol. O ran Cysylltiadau Cadarn a Phobl a Lleoedd Ffyniannus, bydd talebau cysylltedd digidol yn llinell gymorth yn arbennig i gyflogwyr bach.

Dywedodd Gwyneth Ayers fod Grŵp Pobl a Lleoedd Ffyniannus wedi bod yn edrych ar addysg a chyflogaeth. Trafodwyd cynllunio gweithlu sefydliadol yn y cyfarfod diwethaf a'r anghenion datblygu ar gyfer y dyfodol o ran gweithio ystwyth. Ymatebodd Barry Liles gan ddweud y byddai'n dda cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Jane Lewis mewn cyfarfod yn y dyfodol oherwydd gall y ffocws gymryd llwybr gwahanol yn dilyn Covid-19. Ychwanegodd Sarah Jennings fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn awyddus i weithio gyda Jane ar waith Sgiliau Rhanbarthol Bae Abertawe a sut mae'n cysylltu â hyn o ran cefnogi'r sector iechyd a gofal.

Ychwanegodd Gwyneth Ayers fod y grŵp hefyd yn edrych ar gaffael lleol a fydd yn cael ei ddatblygu trwy brosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol. Mae'r hysbyseb ar gyfer Swyddog Prosiect allan ar hyn o bryd ac maent wrthi'n cadarnhau gwaith gyda CLES a weithiodd yn bennaf gyda Preston. Cyfeirir at Fodel Preston fel yr arfer gorau. Bydd y gwaith nid yn unig yn canolbwyntio ar yr ochr fwyd ond dull caffael blaengar ar draws y partneriaid sy'n ymwneud â'r prosiect (y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, Coleg Sir Gâr a'r Brifysgol) oherwydd gwariant ar fwyd. Yr elfen nesaf fyddai'r gwaith ehangach ar gaffael blaengar a gychwynnodd Llywodraeth Cymru, bydd hyn ar sail ranbarthol gyda Phowys, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Yn ddiweddar, derbyniodd Barry Liles lythyr gan Lee Waters yn holi a fyddem yn barod i symud y gwaith hwn yn ei flaen, cadarnhawyd y bydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag y byddwn yn barod a bydd yn cynnwys holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

CAMAU GWEITHREDU	
Cysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch meysydd sy'n gorgyffwrdd	Tîm Cefnogi'r BGC
Trefnu cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Jane Lewis am y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol	Tîm Cefnogi'r BGC
Dosbarthu'r tabl sy'n crynhoi'r cynllun llesiant a'r blaenoriaethau ar ôl Covid-19, a phob un i ddarparu adborth erbyn diwedd mis Awst	Pawb
Ystyried blaenoriaethau'r dyfodol yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi	Tîm Cefnogi'r BGC

8. Ynglwm er Gwybodaeth

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

Rhoddodd Gwyneth Ayers wybod bod Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i gyhoeddi ddechrau mis Mai a bod disgwyl i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, trwy'r Ddeddf Llesiant, gyhoeddi canfyddiadau'r adroddiad 12 mis cyn etholiadau'r senedd. Er gwaethaf y cyfyngiadau symud, aethant ymlaen a chyhoeddi er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae'n adroddiad hir ac mae'n cynnwys 295 o argymhellion. Dywedodd Julian Atkins fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys wedi llunio crynodeb o'r argymhellion ac y byddai'n ceisio cymeradwyaeth i'w rannu.

Cytunwyd i gynnal gweithdy ym mis Medi/Hydref i drafod yr adroddiad.

CAMAU GWEITHREDU

Ceisio cymeradwyaeth gan Bowys i ddosbarthu crynodeb o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020	Julian Atkins
Trefnu gweithdy ar gyfer mis Medi/Hydref i drafod Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020	Tîm Cefnogi'r BGC

9. Unrhyw Fater Arall

Adroddiad Canol y Dref

Dywedodd Gwyneth Ayers fod y Cyngor Sir yn ystyried adferiad economaidd fel rhan o ymateb Covid-19. Mae canol y dref yn un o'r ardaloedd allweddol gan gynnwys trefi gwledig ledled y sir. Cyn y cyfyngiadau symud, cysylltwyd â'r holl bartneriaid i nodi unrhyw anghenion llety/swyddfa yn y trefi a byddai'n dda ailedrych ar y gwaith hwn a'i symud ymlaen. Sut ydym yn cael mwy o ymwelwyr yn y trefi, a oes cyfle i greu canolfannau sector cyhoeddus y gallai unrhyw weithiwr o'r sector cyhoeddus eu defnyddio?

Llythyr gan Lee Waters

Dywedodd Gwyneth Ayers y soniwyd am hyn yn y diweddariad am gaffael ac yn gobeithio parhau â'r gwaith cyn gynted â phosibl.

GamCare

Dywedodd Marie Mitchel fod CAVS wedi bod yn gweithio gyda GamCare dros yr wythnosau diwethaf a bod hapchwarae wedi cynyddu yn ystod yr argyfwng presennol. Mae GamCare eisiau codi ymwybyddiaeth o'r dulliau y mae safleoedd hapchwarae/bingo ar-lein yn eu defnyddio er mwyn annog pobl i barhau i chwarae. Mae GamCare yn cynnig hyfforddiant i sefydliadau a staff adnabod arwyddion a thynnu sylw at driniaeth am ddim ar gyfer dibyniaeth ar hapchwarae.

Cyngor Gwledig Llanelli

Dywedodd Mark Galbraith, mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fod Cyngor Gwledig Llanelli wedi comisiynu cynllun lle cyfan â hyd am 15 mlynedd ac wedi penodi Swyddog Datblygu Cymunedol. Mae rhai o'r prosiectau presennol yn cynnwys y canlynol:

- Sefydlu cynllun mabwysiadu cymunedol yng nghronfeydd Cwm Lliedi er mwyn edrych ar hyrwyddo bioamrywiaeth, bydd hyn yn cynnwys stocio'r gronfa gyda physgod i annog pysgota a'i hagor fel cyrchfan i dwristiaid ar gyfer caiacio.
- Llwybrau Diogel yn y Gymuned

- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb o ran llyfrgell Llwynhendy er mwyn trosglwyddo asedau a'i newid yn ganolfan gymunedol.
- Rhoddir ystyriaeth i'r Ddeddf Llesiant a'r seilwaith cynaliadwy wrth edrych ar ddatblygiadau preswyl mawr. Teimlir y gellid cwrdd â hyn trwy sefydlu canolfan sy'n cynnig cyfleusterau allgymorth fel swyddfa bost, deintyddfa, gofal iechyd ac ati a byddai'n croesawu e.e. cefnogaeth Adran 106 ar gyfer hyn.
- Mae nifer o drosglwyddiadau asedau cymunedol yn cael eu hystyried.
- Mae menter Cyfeillion y Stryd yn grŵp gwirfoddolwyr sy'n cael ei hyrwyddo fel hyrwyddwyr cymunedol a gall unigolion wirfoddoli mewn unrhyw brosiect cymunedol. Cânt eu cynorthwyo trwy fenter credydau amser Spice
- Sefydlu ardaloedd chwarae newydd i blant, grwpiau cymorth sy'n ceisio am grantiau, sefydlu grwpiau newydd ac ati.
- Mae presenoldeb y Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu'n sylweddol gyda 700 o ddilynwyr ar Twitter.
- Mae sawl banc bwyd yn yr ardal ac mae'n ymddangos bod rhai yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, mae angen rhannu adnoddau.

Gofynnodd Huwel Manley i Mark gysylltu ag ef mewn perthynas â'r diddordeb mewn caiaio ac ychwanegodd ei fod yn credu mai Phil Stone yw swyddog Grŵp Canŵ Cymru. Dywedodd Kevin Jones y gallai'r tîm diogelwch dŵr Tân ac Achub gynorthwyo gydag ymwybyddiaeth i ymwelwyr ac ati wrth i brosiect Dyffryn y Swistir ddatblygu.

Dywedodd Barry Liles fod y cynghorau tref a chymuned yn gwneud llawer o waith a thynnodd sylw at yr angen i gyfleu'r wybodaeth yn fwy effeithiol.

Sarah Jennings

Cyhoeddodd Barry Liles mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf i Sarah Jennings sydd wedi bod yn aelod hirdymor o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyn hynny y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Byddai hyn yn golled enfawr i'r Bwrdd a diolchodd iddi am ei chyfraniad dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.

Milltiroedd

Gofynnwyd i'r holl aelodau roi manylion y milltiroedd y byddent wedi'u teithio i gyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin. Byddai hwn yn fesur defnyddiol wrth symud ymlaen o ran goblygiadau amgylcheddol a chost.

CAMAU GWEITHREDU	
Ailedrych ar anghenion llety/swyddfa y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn trefi	Tîm Cefnogi'r BGC
Codi ymwybyddiaeth o GamCare o fewn eu sefydliad - Marie Mitchell i ddarparu gwybodaeth berthnasol	Pawb
Ystyried sut i gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Tref a Chymuned i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Tîm Cefnogi'r BGC
Rhoi manylion y milltiroedd y byddent wedi'u teithio i ddod i gyfarfod corfforol yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP	Pawb